

From: [Shan Lloyd Williams](#)
To: [Wylfa Newydd](#)
Subject: Wylfa Newydd DCO
Date: 17 September 2018 22:27:01
Attachments: [cig_77487c45-c107-4a78-8097-e92c9c396e81.png](#)

Subject: Wylfa Newydd DCO

Ysgrifennaf yn rhinwedd fy swydd fel Prif Weithredwraig Cymdeithas Dai Grwp Cynefin, gan nodi pryderon ynglyn ag effaith diffyg paratoadau digonol o flaen llaw yr holl gontractwyr ar y farchnad dai lleol. Diffiniaf 'lleol' ar gyfer y mater yma fel Ynys Mon a gogledd Gwynedd.

Rydym yn ymwybodol o gyd-drafod hefo Cymdeithasau Tai a Llywodraeth Lleol yn ardal datblygiad Hinckley Point, o effaith y datblygiad ar :-

1. brisiau tai lleol (cynydd mewn prisiau o fewn dalgyllch 10 milltir o'r datblygiad),
2. cynydd ym mhrisiau rhent tai sector breifat (o leiaf 30%),
3. cynydd yn niferoedd aelwydydd sydd yn cyflwyno eu hunain yn ddi-gartref oherwydd fod landlordiaid sector breifat yn cynyddu eu rhenti cymaint fel nad ydynt mwyach yn fforddiadwy,
4. Unigolion a theuluoedd mwyaf bregus fydd yn cael eu heffeithio.

Nid oes digon o gyflenwad o dai cymdeithasol ar yr Ynys ar gyfer diwallu yr angen presenol heb son am anghenion a ddaw yn sgil contractwyr Wylfa Newydd i'r Ynys. Rydym wedi cydweithio hefo swyddogion Cyngor Sir Ynys Mon i lunio cais ar gyfer cynyddu cyflenwad tai cymdeithasol ar yr Ynys, a mae'r ffigyrarau wedi eu cyflwyno i Llywodraethiad Cymru. Rydym yn barod iawn i weithio hefo Horizon, Cyngor Mon a Llywodraeth Cymru i gyrraedd datrysiad.

Os nad oes buddsoddiad buan, bydd y gwch wedi ei cholli.

Ers tair mlynedd, mae aelodau staff ag Ymgynghorydd Tai a gyflogir gan cwmni Horizon wedi bod yn cadarnhau mewn egwyddor bydd arian tuag at ddod a chyflenwad o dai gwag nol i ddefnydd ar yr Ynys - ond eto, nid ydym wedi gweld arian ganddynt. Mae'n cymeryd amser ag adnoddau i ddod a thai gwag nol i ddefnydd - ni ellir gwneud hyn dros nos.

Mae adeiladau o'r maint a gynigir gan Horizon yn eu cais DCO ar gyfer y campws, bell rhy uchel ag allan o gymeriad ar gyfer rhan yma o'r Ynys.

Hefyd, os bydd Horizon yn parhau i oedi cyn darparu lletya pwrpasol, mi fydd yn anodd iawn llenwi'r lletya hyn. Mae angen agwedd hyblyg i ymateb i'r niferoedd a'r math o letya fydd angen ar gyfer datblygu'r lletya pwrpasol hyn. Gwelwyd hyn yn ddiweddar yn Hinkley. Unwaith bydd contractwyr wedi setlo mewn yn y gymuned- ni fydd ganddynt awydd symud allan i'r lletya pwrpasol.

Hyd y gwyddaf, nid oes trafodaethau wedi bod hefo sector Cymdeithasau Tai am yr "Housing Fund" sydd wedi cael ei gyfeirio ato ers peth amser.

Bydd y datblygiad yn arwain at brinder sgiliau ymysg staff adeiladu a cynnal a chadw. Yn ogystal a hyn, bydd prisiau adnoddau adeiladu yn cynyddu, a fydd yn cynyddu costau adeiladu tai cymdeithasol, a bydd hyn hefo goblygiadau pellach ar ein cynlluniau busnes, fel Cymdeithasau Tai. Mae gennym dystiolaeth fod hyn wedi digwydd gyda nifer o ddatblygiadau strategol mawr eraill yn y Deyrnas Unedig.

Effaith ar yr Iaith ag ar gymunedau - pa fesurau fydd mewn lle ar gyfer lleihau effaith miloedd o gontractwyr ar yr Iaith Gymraeg a hefyd ar ein cymunedau?
Rydym yn rhagdybio bydd yna rhagor o bwysau ar ein staff rheoli stadau mewn perthynas ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Mwy na pharod i gyflwyno tystiolaeth ar ran y sector dai mewn unrhyw

wrandawriad trafod DCO Wylfa Newydd.

Shan

Shan Lloyd Williams, MSc(Econ), MCIH, Prif Weithredwraig Grwp Cynefin.

Sent from my iPad



Shan Lloyd Williams
Prif Weithredwr
Chief Executive

Cyswllt/Contact
Tŷ Silyn,
Penygroes
Caernarfon,
LL54 6LY

Cyswllt/Contact
post@grwpcynefin.org
Ffôn/Phone: 0300 111 2122
Ffacs/Fax: 0300 111 2123

Cyfryngau Cymdeithasol/Social Media
twitter.com/Grwp_Cynefin
facebook.com/GrwpCynefin

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Write to me in Welsh or English
grwpcynefin.org

Mwy na thai • More than housing



Mae Grŵp Cynefin yn gymdeithas dai elusenol a gofrestrwyd o dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014.
Grŵp Cynefin is a charitable housing association and registered under the Co-operative and Community Benefit Societies act 2014.

Rhybudd - Mae'r neges yma i ddefnydd y derbynnydd a enwir uchod yn unig. Mae unrhyw farn a fynegir yn yr e-bost hwn yn berthnasol i'r unigolyn a anfonodd y neges ac ni ddylid cymeryd fod Grŵp Cynefin o'r un farn. Ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod sy'n codi o ddefnyddio'r e-bost hon.

Caution - This message is intended only for the addressee named above. The views expressed in this e-mail are those of the individual sender and may not necessarily reflect the views of Grŵp Cynefin. We cannot accept responsibility for any loss or damage arising from the use of this e-mail.